



PRIFYSGOL  
**BANGOR**  
UNIVERSITY

**POLISI AR STATWS ACADEMAIDD A NEWID LLWYBR  
CONTRACT**

<b>Adolygwyd</b>	<b>Dyddiad</b>	<b>Diben Cyhoeddi/Disgrifiad o'r Newid</b>		<b>Dyddiad Adolygu</b>
1.	2022			N/A
2.				
3.				
<b>Y Swyddog Polisi</b>		<b>Yr Uwch Swyddog sy'n Gyfrifol</b>	<b>Pwy a'i Cymeradwyodd a'r Dyddiad</b>	<b>Asesu Effaith Cydraddoldeb a dyddiad</b>
Louise Shipton		Tracy Hibbert		

## **Pwrpas y Polisi**

Nod y Polisi Statws Academaidd a Newid Llwybr Contract yw adlewyrchu ymrwymiad y Brifysgol i gynnal a gwella cymhelliant, morâl, a boddhad mewn swyddi, ac i weithredu o fewn fframwaith sy'n gyson, yn dryloyw ac yn deg.

Mae Prifysgol Bangor wedi ymrwymo i hybu cyfle cyfartal yn ei holl weithgareddau ac mae'n anelu at greu amgylchedd i weithio, dysgu, ymchwilio ac addysgu ynddo sy'n rhydd o wahaniaethu a thriniaeth annheg. Bwriedir i'r gweithdrefnau sy'n ymwneud â dyrchafiadau fod yn deg, yn eglur a'u bod yn cyd-daro â Pholisïau Cyfle Cyfartal y Brifysgol.

Yn unol â'r cefndir hwn, bydd pob aelod o staff yn cael ei drin/ ei thrin yn deg a bydd cyfle cyfartal i bawb. Bydd penderfyniadau ynglŷn â rheoli gyrfa a newid contract yn seiliedig ar ofynion strategol yr Ysgol yn ogystal ag ar allu unigol a pherfformiad effeithiol. Bydd statws cyflogaeth neu contract yr ymgeisydd (e.e. rhan-amser, rhannu swydd ac yn y blaen) ac amgylchiadau personol (e.e. mamolaeth, tadolaeth, mabwysiadu, absenoldeb riant ac yn y blaen) a allai fod wedi effeithio ar yrfa'r ymgeisydd yn cael eu cymryd i ystyriaeth wrth asesu maint y gweithgarwch ond nid yr ansawdd.

Mae'r Brifysgol yn ymrwymo i fonitro ceisiadau, tueddiadau sy'n ymwneud â dyrchafiadau, ac ystadegau er mwyn sicrhau bod y meini prawf sy'n sail i'r penderfyniadau a wneir yn rhai y gellir eu cyfiawnhau'n wrthrychol ac yn gyfreithlon yn unol â'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â chyfle cyfartal a gwahaniaethu.

## **Cwmpas**

Mae'r gweithdrefnau hyn yn berthnasol i staff sy'n gwneud cais am statws academaidd ar Raddfa 7 neu uwch neu rai sy'n dymuno cael eu hystyried ar gyfer newid eu llwybr contract (e.e. Addysgu ac Ysgolheictod i Addysgu ac Ymchwil ac i'r gwrthwyneb). Mae manylion y meini prawf meincnodi sy'n ymwneud ag ystyried ceisiadau i'w cael mewn dogfennau atodol (fe'i defnyddir ar gyfer ceisiadau am ddyrchafiad). Rhaid i unigolion sy'n dymuno cael eu hystyried ar gyfer statws academaidd neu newid llwybr contract fodloni meini prawf meincnodi perthnasol y raddfa a'r llwybr perthnasol. Nid yw'r meini prawf meincnodi'n hollgynhwysfawr nac yn rhagnodol ond maent yn rhoi enghreifftiau o natur y gweithgareddau disgwylidiedig a ddefnyddir i asesu ceisiadau. Bydd rhai dangosyddion yn fwy perthnasol i rai disgyblaethau a bydd hynny'n cael ei ystyried wrth asesu'r ceisiadau. Nid oes disgwyl i'r ymgeiswyr fodloni'r holl ddangosyddion ym mhob maes. Dylid trafod ymlaen llaw gyda Phennaeth yr Ysgol cyn symud ymlaen gan y dylai ceisiadau fod yn unol â gofynion yr Ysgol

## **Cyfrifoldeb**

Cyfrifoldeb Cyfarwyddwr yr Adnoddau Dynol, sy'n adrodd i'r Grŵp Tasg Adnoddau Dynol a'r Pwyllgor Gweithredu yw gweithredu, monitro ac adolygu'r polisi hwn ledled y Brifysgol.

Deoniaid Colegau, Penaethiaid Ysgolion a Phenaethiaid Adrannau sy'n gyfrifol am weithredu'r Polisi o fewn y Colegau a'r Gwasanaethau Proffesiynol.

## **Egwyddorion Craidd**

- Ni chaiff ceisiadau am statws academaidd neu newid llwybr contract eu hystyried onid yw Pennaeth yr Ysgol o'u plaid a'u bod felly'n cael eu hystyried yn fuddiol i'r Ysgol.
- Rhaid i geisiadau ddangos eu bod yn bodloni'r meini prawf meincnodi'r raddfa a'r llwybr perthnasol.
- Trwy'r broses Adolygiadau Datblygu Perfformiad (PDR) dylid cynnal trafodaethau ystyrlon gyda'r holl staff (llawn amser, rhan-amser, parhaol a chyfnod penodol) ar ddatblygiad gyrfa ac opsiynau.

## **Y DREFN AR GYFER GWNEUD CAIS AM NEWID STATWS ACADEMAIDD NEU LWYBR CONTRACT**

Mae'n bwysig trafod dilyniant gyrfa'n flynyddol fel rhan o'r broses ADP. Mae'r ADP yn rhoi cyfle i'r unigolyn a'r adolygydd drafod yn ystyrion ynghylch eu perfformiad ac archwilio cyfleoedd. Trwy'r broses hon dylai fod yn bosibl cael adborth defnyddiol (yn unol â'r meini prawf meincnodi dyrchafiad) a dylai hynny sicrhau bod y cais mor gryf â phosibl. Disgwylir felly fel arfer y bydd unigolion wedi cael ADP cyn gwneud cais.

Ni ddylai neb wneud cais heb gefnogaeth Pennaeth yr Ysgol a'i fod felly'n gais yr ystyrir ei fod o fudd i'r ysgol.

Yn y cais rhaid nodi'n glir o dan ba lwybr yr ystyrir y cais ac os bydd yn llwyddiannus cyflwynir contract cyflogaeth diwygiedig a fydd yn adlewyrchu'r newidiadau i'r telerau a'r amodau cyflogaeth.

Felly, bydd angen dangos tystiolaeth o ragoriaeth yn unol â'r meini prawf meincnodi fel a ganlyn, gan ddibynnu ar y llwybr:

<b>Llwybr Contract:</b>	
<b>Addysgu ac Ysgolheictod</b>	<b>Addysgu ac Ymchwil</b>
Addysgu a Dysgu	Ymchwil
Ymchwil (agweddau perthnasol yn unig)	Addysgu a Dysgu (agweddau perthnasol yn unig)
Chyfraniad Ehangach	Chyfraniad Ehangach

## 1. AMSERLEN

Fel rheol caiff y ceisiadau eu hystyried yn unol â'r amserlen ddyrchafiadau flynyddol, gan ddechrau yn Nhymor y Gwanwyn a'r ceisiadau llwyddiannus fel arfer yn weithredol o 1 Ionawr 2023.

Bydd y ceisiadau'n dilyn proses y Panel Brifysgol Dilysu Dyrchafiadau Academaidd.

**Fel arfer rhaid i geisiadau gyrraedd y Pennaeth Ysgol** i'w hystyried o leiaf 2 wythnos o flaen llaw y dyddiad cau cyhoeddedig ar gyfer Ceisiadau gan y Brifysgol. Gyda'r dyddiad cau cyhoeddedig yw 13 Ionawr 2023 yn y rownd bresennol, **RHAID i ymgeiswyr sicrhau bod eu ceisiadau'n cael eu cyflwyno i'w Pennaeth Ysgol erbyn 22 Rhagfyr 2022 fan bellaf** (cyn cyfnod cau'r Nadolig)

### Y DREFN YMGEISIO A MEINI PRAWF CYMWYSO

Gwneir cais trwy gwblhau'r Ffurflen Gais CV Statws Academaidd a Newid Llwybr. Cewch gynnwys deunydd o'ch ADP yn eich cais.

Mae'r Brifysgol yn deall y gall amgylchiadau unigol effeithio ar broffil gyrfa ymgeisydd. Felly, mae'n bwysig ystyried materion o'r fath trwy wneud addasiadau priodol o ran cydraddoldeb a addasiadau angenrheidiol eraill wrth ystyried cais. Gall amgylchiadau unigol gynnwys, ymhlith pethau eraill:

- Gweithio'n rhan-amser (gan gynnwys gweithio yn y semester neu rannu swydd)
- Absenoldeb Beichiogrwydd a Mamolaeth
- Absenoldeb Tadolaeth
- Absenoldeb Rhiant a Rennir
- Absenoldeb Mabwysiadu
- Anabledd
- Dyletswyddau Gofalu
- Salwch neu anaf hirdymor
- Gweithgareddau gweinyddol ble mae galw mawr amdanynt ar lefel Prifysgol/Coleg/Ysgol

Anogir ymgeiswyr i ddatgelu amgylchiadau o'r fath yn y cais. Caiff ansawdd ac effaith perfformiad yr ymgeisydd eu hasesu yn unol â'r meini prawf meincnodi. Caiff amgylchiadau unigol eu hystyried er mwyn sicrhau bod barn gytbwys ynghylch cyfraniad cyffredinol yr ymgeisydd i'w rôl. Ni ddylid ystyried materion unigol yn ffordd o ostwng y bar wrth asesu rhagoriaeth ond yn hytrach ystyried disgwyliadau gwahanol o ran maint allbwn/amlder gweithgareddau.

Bydd Pennaeth yr Ysgol a Deon y Coleg yn darparu gwerthusiad ysgrifenedig manwl o'r cais, yn erbyn y meini prawf meincnod, gan amlinellu cryfderau'r cais a'r meysydd lle mae diffyg tystiolaeth yn y cais, trwy lenwi'r templed ffurflen adborth. Gellir cyflwyno datganiad ar y cyd a ddylai gadarnhau bod y cais yn unol â gofynion yr Ysgol.

### **Panel Brifysgol Dilysu Dyrchafiadau Academaidd**

Caiff y ceisiadau eu hanfon ymlaen gan yr Adnoddau Dynol i'r Panel Brifysgol Dilysu Dyrchafiadau Academaidd i'w hystyried.

Bydd Deon y Coleg yn cyflwyno'r ceisiadau sydd o dan ystyriaeth o'u maes i'r Panel.

## **2. PANEL**

Dylai'r cydbwysedd rhwng y rhywiau ar y Paneli fod mor agos at 50% gwrywaidd a 50% benywaidd ag sy'n rhesymol bosibl.

- Is-Ganghellor (neu eu cynrychiolydd enwebedig) – Cadeirydd
- Dirprwy Is-Ganghellor
- Dirprwy Is-Ganghellorion
- Deoniaid y Colegau
- Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol
- Gwasanaethir y panel gan yr Adnoddau Dynol

## **3. HYSBYSU'R CANLYNIAD/ADBORTH**

Bydd yr Adnoddau Dynol yn ysgrifennu i hysbysu ymgeiswyr o ganlyniad eu hachos, gan nodi y bydd Deon y Coleg, ynghyd â Phennaeth Ysgol y maes perthnasol, yn cyfarfod â'r ymgeisydd (llwyddiannus ac aflwyddiannus) i roi adborth llawn.

#### **4. DIOGELU DATA**

Caiff papurau cefndirol ac adroddiadau'n ymwneud â cheisiadau am ddyrchafiad eu cadw'n ganolog yn yr adran Adnoddau Dynol, ac yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data.

# CAIS AM STATWS ACADEMAIDD A NEWID LLWYBR CONTRACT SIART LLIF Y BROSES

